Rhifyn Newydd 37 'Gwyrdd ac Iach'

'Penblwydd Hapus i Fi'
'Penblwydd Hapus hwyr i Fi'

Be gawsoch chi fel anrheg Pen-blwydd eleni? Llyfr, arian gwario, neu gêm newydd i'r X Box? Wel, be bynnag oedd o, mae'n siŵr eich bod wrth eich bodd gyda'r rhoddion.

Ar ddechrau Mis Hydref eleni, mi nes i ddathlu fy mhen-blwydd hefyd yn 40 (rhywbeth!) ac fel pawb o'r oedran yma mae derbyn 'anrheg unigryw' yn profi i fod yn fwy anodd bob blwyddyn. Ond eleni, mi dderbyniais anrheg arbennig iawn, un nad oeddwn wedi ei dderbyn erioed o'r blaen.

Ar fore fy mhen-blwydd, edrychais allan o'r ffenest a gweld golygfa anghyfarwydd ac annhymhorol iawn. Am y tro cyntaf erioed, ar ddiwrnod fy mhen-blwydd roedd Copa'r Wyddfa yn wyn gan haen o eira! Wel dyna anrheg i'w gofio!

Ond dyma ddechrau pryderu ar yr un pryd. Doedd dail y coed heb droi ei lliw yn llawn eto. Roedd hyd yn oed rhai o'r planhigion yn yr ardd yn dal i flodeuo OND roedd EIRA ar yr Wyddfa!

Mae llawer i son wedi bod yn y cyfryngau yn ddiweddar fod 'ein ffordd fodern ni o fyw' yn effeithio'n uniongyrchol ar ein hinsawdd. Yr unig ateb (yn ôl yr arbenigwyr) yw newid i 'ddulliau mwy gwyrdd o fwy' a drwy wneud hyn, ceisio gwyrdroi'r effaith o 'gynhesu byd eang'

Yn y rhifyn diweddaraf yma, mae criw Gwaith Maes wedi mynd ati i gasglu nifer o erthyglau yn ymwneud a 'Byw'n Iach ac yn Wyrdd'. Mae pawb yn ein hannog i wneud mwy o ymarfer corff ac mae cerdded yn ffordd hawdd o wneud hyn. Ond os oes mwy o bobl yn cael eu hannog i fynd allan i gefn gwlad i gerdded, pa effaith mae hyn yn cael ar y llwybrau gan gofio mae llwybrau anifeiliaid oedd nifer o'r llwybrau gwreiddiol ar ein mynyddoedd. Darllenwch erthygl Angharad Harris am fwy o wybodaeth.

Gyda phris trydan wedi codi yn arswydus dros y misoedd diwethaf, mae rhaid chwilio am ffyrdd mwy 'amgylcheddol cyfeillgar' o'i gynhyrchu yn y dyfodol. Mae erthygl Rhys Thomas yn olrhain hanes diddorol melinau gwynt traddodiadol Sir Fôn. Maent wedi bod yn rhan o dirlun yr ynys ers blynyddoedd. Beth fyddai'r effaith ar dirlun Cymru heddiw pe bai melinau gwynt modern yn cael eu codi ar eich ucheldiroedd er mwyn cynhyrchu trydan 'gwyrdd a glân'? Mae Angharad Williams yn ceisio cynnig ateb yn ei herthygl.

Mae prosiect P.A.B.A (Plant, Amaeth, Bwyd, Addysg) ym Mhowys yn annog pobl ifanc i ymweld â ffermydd lleol er mwyn sylwi ar y dulliau o gynhyrchu bwyd yn lleol ac ar yr un pryd darganfod pa mor bwysig ydi 'cynefin y fferm' i fywyd gwyllt. Ac os ydych erioed wedi meddwl am gynhyrchu bwyd lleol, pa well ffordd sydd yna ond drwy fagu Ieir! Mae gan Nerys Mullally gynghorion i chi i sut mae mynd ati i ddewis yr ieir cywir ar gyfer yr wyau gorau! Yn dilyn yr un thêm, mae disgyblion Ysgol Gynradd y Felinheli yn sôn am eu profiad wrth dyfu eu llysiau eu hunain.

Felly digon o straeon diddorol yn y rhifyn yma o Gwaith Maes. Pob hwyl ar y darllen a chofiwch am fy anrheg pen-blwydd y flwyddyn nesaf…dim eira plîs! Os hoffech chithau weld erthygl am rhywbeth yr ydych yn ei wneud yn yr ysgol yn y rhifyn nesaf, gadewch i ni wybod.

Hwyl am y tro